Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru / For learners, for Wales

Ysgol Gymraeg Teilo Sant
Stryd Rhosmaen
Llandeilo
SA19 6LU

23/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Gorffennaf 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol ac un flaenoriaeth o gynllun gwella'r ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau bod y cyngor ysgol yn cynnwys disgyblion o wahanol ddosbarthiadau er mwyn i'r rhai iau ddysgu sut i weithredu'n effeithiol ar bwyllgorau wrth eu cyfoedion hŷn

- Mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhelliad. Maent wedi ailstrwythuro'r senedd ysgol i sicrhau cynrychiolaeth o ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6. Mae'r trefniadau diwygiedig yn sicrhau bod disgyblion iau yn gweithio ochr yn ochr â'u cyfoedion hŷn, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o gyfrannu'n effeithiol at waith pwyllgorau.
- Mae system ethol deg a thryloyw wedi ei sefydlu sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgeisio am rolau ac i bleidleisio'n gyfrinachol dros eu cynrychiolwyr.
- Mae'r senedd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithredu drwy is-bwyllgorau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol, gan gynnwys hybu iechyd a chodi ymwybyddiaeth o faterion ecolegol. Mae rolau arwain clir, gan gynnwys cadeirydd, is-gadeiryddion ac ysgrifenyddion, yn datblygu medrau arwain, cydweithio a chyfathrebu'r disgyblion yn effeithiol.

- Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n hyderus at wneud penderfyniadau ac yn teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi. Mae gwaith y senedd yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae'r aelodau'n arwain ystod o fentrau llwyddiannus, gan gynnwys prosiectau arbed ynni, hyrwyddo teithio llesol ac awyr lân, a datblygu adnoddau sy'n cefnogi cyd-chwarae a chreadigrwydd ar y buarth. Yn ogystal, maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n meithrin caredigrwydd ac yn cyfrannu'n effeithiol at les eu cyfoedion.

## Cryfhau uwch fedrau darllen ar draws y cwricwlwm er mwyn datblygu dealltwriaeth a medrau darllen cyfan i gefnogi pob disgybl i ffynnu fel darllenydd annibynnol

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwella uwch fedrau darllen y disgyblion. Maent wedi adnabod y flaenoriaeth hon drwy weithgareddau hunanwerthuso pwrpasol, gan gynnwys teithiau dysgu, darllen gyda disgyblion a gwerthuso effaith arferion addysgu darllen ar draws yr ysgol.
- Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff fynychu gweithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol ac i rannu arferion effeithiol â'i gilydd ac â staff ysgolion lleol.
- Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus sy'n datblygu medrau darllen y disgyblion yn effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu darllen yn fwriadus sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r disgyblion i ddeall a dehongli testunau yn annibynnol.
- Mae'r arweinwyr yn adnabod mai'r cam nesaf yw i gryfhau'r diwylliant o ddarllen ymhellach drwy sicrhau bod ystod eang o ddeunyddiau darllen ysgogol a difyr ar gael sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn bwrpasol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692183](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692183)

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol